



Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ar 19 Medi 2023 am 14:00, yn ystafell 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams

Yn bresennol		
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
Mohammed Mehmet	(MM)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol
Hefyd yn bresennol:		
Anne Beegan	(AB)	Archwilio Cymru
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Andrea Calise	(AC)	Prif Archwilydd ar Gontract, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Paul Dalton	(PD)	Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Huw George	(HG)	Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr, Is-adran Sgrinio (Ymunodd ar gyfer Eitem 3.1)
Alun Lloyd	(AL)	Cynghorydd Annibynnol
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Angela Williams	(AW)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd (Gadawodd am 15:35)
Steve Wyndham	(SW)	Archwilio Cymru (Ymunodd am 14:06)
Ymddiheuriadau:		
Jane Matthews	(JM)	Pennaeth Adrodd a Rheolaeth Ariannol
Dechreuodd y cyfarfod am 14:00		
ACGC 1/2023.09.19 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb		
Agorodd NE y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol, gan nodi bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ddigidol ac wyneb yn wyneb yn CQ2.		

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu gyda chywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr 2024.

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a ddaeth i law.

ACGC 2/2023. 09.19 | Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a oedd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

ACGC 3/2023. 09.19 | Archwiliad Mewnol, Allanol a Chlinigol

**ACGC 3.1/
2023. 09.19 | Archwiliad Allanol**

Ystyriodd y Pwyllgor bapur diweddar Archwilio Cymru, a **derbyniodd** Adroddiad Archwilio Blynnyddol Archwilio Cymru.

Dywedodd AB wrth y Pwyllgor fod yr Adroddiad ar Gynllunio'r Gweithlu, y cyfeirir ato ar dudalen 6, ar hyn o bryd gyda rheolwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru a dywedodd y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor fis Ionawr i'w nodi'n ffurfiol, yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod mis Tachwedd o'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl. Cynigiodd AB fod yr Adroddiad yn cael ei anfon at aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol cyn y cyfarfod nesaf.

Rhoddodd AB wybod i'r Pwyllgor fod gwaith ar Adroddiad Aseiad Strwythuredig 2023-2024 wedi dechrau, gyda'r bwriad o adrodd arno yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Ionawr. Amlinellodd hefyd y byddai'r dadansoddiad manwl o wasanaethau digidol yn cael ei ohirio tan ddechrau 2024 er mwyn caniatáu amser i gynnal archwiliad o sefyllfa ariannol holl gyrff GIG Cymru.

Nododd y Pwyllgor y newid arfaethedig yn y cynllun gwaith, a mynegodd bryder y gallai'r oedi gael effaith ariannol ar unrhyw drawsnewidiad o fewn y Sefydliad a oedd yn dibynnu ar welliannau i'r rhwydwaith digidol. Gofynnodd y Pwyllgor i AB roi adborth arbryderon y Pwyllgor i reolwyr Archwilio Cymru.

Gofynnodd AB i'r Pwyllgor nodi gwall teipograffyddol yn yr Adroddiad ar dudalen 9, lle y nodwyd na chynhaliwyd ymgynghoriadau perthnasol, pan wnaed hynny mewn gwirionedd.

Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn a nodi** yr Adroddiad Archwilio Blynnyddol ar gyfer 2022.

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Adfer Gwasanaethau Sgrinio ac Ymatebion y Rheolwyr. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar wasanaethau sgrinio nad oeddent wedi eu hadfer ar ôl y pandemig, a chydabuwyd bod staff wedi cael eu hailddyrannu dros dro i gefnogi'r ymateb ehangach i'r pandemig.

Nododd AB fod yr Adroddiad yn un cadarnhaol ar y cyfan, ac roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi yn yr argymhellion.

Trafododd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol/Adroddiad ar Adfer Gwasanaethau Sgrinio a oedd yn tynnu sylw at ddiffyg rhannu data rhwng meddygon teulu ac Is-adran Gwasanaethau Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cydnabuwyd y byddai gwell cydgysylltu a chysondeb yn cael ei gyflawni pe bai gwybodaeth am ddemograffeg, sydd eisoes yn cael ei chadw mewn cofnodion meddygon teulu, yn cael ei rhannu a byddai hynny hefyd yn gwella dealltwriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sylweddol o degwch ei wasanaethau sgrinio. Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal trafodaethau ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i drafod mynediad at ddata ac argaeledd data i'r Sefydliad.

Dywedodd IB wrth y Pwyllgor ei fod wrthi'n arwain rhaglen ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru gan weithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i sicrhau bod data llawn a chywir yn cael eu casglu gan gleifion. Byddai hyn yn arwain at welliant o ran tegwch ar draws ei holl Wasanaethau Sgrinio.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod epidemig cymdeithasol o ddiabetes math II yng Nghymru, ac roedd y Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig, er yn ceisio adfer ar ôl y pandemig, hefyd yn ceisio ymdrin â'r atgyfeiriadau newydd ychwanegol.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch paragraffau 36 a 37 ar dudalen 17 o'r Adroddiad a oedd yn nodi'r cyfyngiad ar atgyfeiriadau. Trafododd SH y pryderon ac esboniodd fod yr adroddiad yn cyfeirio at adeg benodol pan oedd swyddi gwag wedi codi a bod y Gwasanaethau Sgrinio yn gallu atgyfeirio cleifion at Fyrddau Iechyd eraill i'w symud ymlaen drwy'r system ar ôl i gleifion gael diagnosis cychwynol, ac nid oedd hyn yn destun pryder.

Fe wnaeth tîm y Gwasanaethau Sgrinio gydnabod canfyddiadau'r adroddiad, gan nodi bod nifer o welliannau ymatebol wedi'u gwneud eisoes fel y manylwyd yn ymatebion y rheolwyr, a bod y broses o adfer gwasanaethau dan reolaeth. Clywodd y Pwyllgor fod modelu data fel rhan o ddarpariaeth y Gwasanaethau Sgrinio yn rhan dechnegol a hollbwysig o'r broses, ac y byddai'n sicrhau bod y data priodol ynghylch galw a chapasiti ar gael i gynllunwyr y gwasanaethau.

Diolchodd NE i SH am y cynnydd yr oedd hi a'i thîm wedi'i wneud i adfer y Gwasanaethau Sgrinio, a nododd yr angen i Fyrddau iechyd weithio ar y cyd mewn ffordd gydlynol i ddarparu gwasanaeth effeithiol a chydamserol i boblogaeth Cymru.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiadau.

**ACGC 3.2/
2023. 09.19**

Archwiliad Mewnol

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Mewnol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo, a bu oedi gydag un adolygiad gan y gofynnwyd i ragor o waith gael ei wneud yn yr adolygiad o'r Seilwaith TG. Byddai hyn yn cael sgil-ffeithiau wrth i fwy o adroddiadau na'r arfer gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfodydd mis Ionawr a mis Mawrth.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r safonau y byddai'r Archwiliad o'r Seilwaith TG yn eu dilyn, a dywedodd PD wrth y Pwyllgor y byddent yn defnyddio fframwaith COBIT (yr Amcanion Rheoli ar gyfer Technolegau Gwybodaeth). Diolchodd y Pwyllgor i PD am yr ymateb, ond nododd fod Awdurdodau Iechyd eraill yn cydnabod safonau rhyngwladol ehangach a oedd hefyd yn canolbwyntio ar ymddygiad a phrosesau, nid technoleg yn unig.

O ran Cynllun Gwaith Archwilio Mewnol 2023/24, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch diben a chwmpas yr adolygiad Archwilio Mewnol a gynlluniwyd ar gyfer adroddiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Dywedodd PD wrth y Pwyllgor fod yr adolygiad wedi cael ei awgrymu gan y Swyddogion Gweithredol fel rhan o'r adolygiad o gyfarfodydd ynghylch y cynllun gwaith drafft. Yn wreiddiol, roedd yr adroddiad wedi'i gynllunio i edrych ar y broses sicrwydd ynghylch rheoli risgiau, a chafodd y cynllun gwaith ei ehangu i gynnwys adolygu'r prosesau sicrwydd yn fwy cyffredinol a byddai o bosibl yn ystyried datblygiad Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y nodiadau ar gyfer yr Adroddiad Dychwelyd i Fusnes fel Arfer a oedd yn nodi nad oedd unrhyw waith pellach wedi'i gynllunio. Eglurodd PD fod cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal a bod y briff wrthi'n cael ei gwblhau gyda'r Arweinydd Gweithredol. Gofynnodd y Pwyllgor i'r amserlen ar gyfer ymatebion gael ei hadolygu er mwyn sicrhau y ceir ymatebion prydlon er mwyn gwneud cynnydd da gyda'r cynllun.

Camau gweithredu: PB / PD

Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad ynghylch y Cynnydd wrth Archwilio.

**ACGC 3.2.1/
2023. 09.19**

**Diweddariad: Sicrwydd Cyfyngedig ynghylch
Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth)**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adroddiad ynghylch Gwella Iechyd (Iechyd y Boblogaeth).

Dywedodd IB wrth y Pwyllgor:

- fod system ar y gweill i symleiddio'r broses fonitro faith ac i sefydlu dangosyddion fel y gellir tracio a rhoi sicrwydd ynghylch rheolaeth y broses.

- bod proses wedi'i datblygu er mwyn gallu llunio rhagolwg o'r sefyllfa ariannol a fyddai'n cael ei hadolygu gydag aelodau'r Tîm Cyllid a Llywodraeth Cymru.

Cydnabuwyd bod y sgôr ambr yn yr adroddiad yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud ar y gwaith cymhleth hwn, a oedd yn dibynnu ar lawer o bobl y tu allan i'r Sefydliad.

Dywedodd y Pwyllgor fod yr adroddiad gwreiddiol yn cynnwys dau ganfyddiad allweddol a'u bod yn siomedig nad oedd cyfeiriad at yr ail ganfyddiad yn yr adroddiad hwn. Ni welsant unrhyw gyfeiriad yn y diweddariad at ddiffyg rheolaeth y tîm rheoli dros rai grantiau, a chanfuwyd bod y camau gweithredu ynghylch effeithiolrwydd rheolaeth y tîm rheoli yn anfoddfaol. Dywedodd IB wrth y Pwyllgor fod cyfarfodydd uwch-reolwyr yn cael eu cynnal bob mis i wirio'r sefyllfa o ran grantiau a'u rheolaeth. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweithgor a sefydlwyd i reoli'r Grantiau roi sicrwydd ar gynnydd eu gwaith yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Byddai llawer o'r grantiau'n dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon ac roedd y tîm wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i asesu parhad grantiau yn y meysydd hyn.

Cafodd y Pwyllgor sicrwydd rhannol bod camau'n cael eu cymryd i roi'r argymhellion ar waith a bod systemau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer rheoli grantiau ar gyfer iechyd y boblogaeth, a gofynnodd y Pwyllgor i IB a'r Gweithgor ddychwelyd i gyfarfod y Pwyllgor rywbryd i roi sicrwydd pellach.

Pwynt gweithredu: IB

ACGC 4/2023.09.19	Cyllid a Chaffael
--------------------------	--------------------------

ACGC 4.1/2023. 09.19	Adroddiad Caffael
-----------------------------	--------------------------

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Caffael ar gyfer 1 Mai i 31 Awst 2023, a gyflwynwyd gan ddefnyddio fformat newydd a grëwyd gan Wyn Owens, Pennaeth Caffael Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod cyfiawnhad dros ddefnyddio Camau Tendr Sengl pan fu i'r tîm caffael gysylltu â dim ond un darparwr. Dywedodd AW wrth y Pwyllgor y byddai'r tîm caffael wedi archwilio fframweithiau ac wedi profi'r farchnad cyn penderfynu defnyddio'r dull tendr sengl i gyfiawnhau dyfarnu'r contract. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y tîm cyllid yn dilyn egwyddorion diwydrwydd dyladwy bob amser i sicrhau bod y Sefydliad yn cael y gwerth gorau am arian.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** fformat newydd yr Adroddiad
- **Nodi'r** ffaith bod ôl-archebion wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad am y tro cyntaf

- **Nodi'r** argymhellion yn yr adroddiad, a
- Chael **sicrwydd** bod gweithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

**ACGC 4.2/
2023. 09.19**

Colledion a Thaliadau Arbennig

Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig.

Gofynnodd AW i'r Pwyllgor nodi bod un achos yn y cyfnod 2023/24 yn cynnwys un taliad o £455,000, pe bai'r achos hwn yn cael ei ddileu, roedd y ffigurau'n debyg i flynyddoedd blaenorol.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** a chael **sicrwydd** bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi cael eu gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

**ACGC 5/
2023. 09.19**

Rheoli Risgiau

**ACGC 5.1/
2023. 09.19**

**Diweddariad ar y Cynllun Datblygu ar gyfer
Rheoli Risgiau**

Cyflwynodd SS y Cynllun Datblygu ar gyfer Rheoli Risgiau wedi'i ddiweddarau ynghyd ag atodiadau A a B, a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2022 ac a oedd yn bwriadu ymdrin â Rheoli Risgiau'r Sefydliad hyd at 2025. Soniodd am y gwaith datblygu a oedd wedi'i wneud a thynnodd sylw at gamau allweddol ar gyfer y dyfodol:

- Recriwtio ar gyfer rôl Pennaeth Risg.
- Datblygu gwaith i'w anfon at ymgynghorwyr i symud y cynllun datblygu yn ei flaen (gan ddefnyddio manylebau Grant Thornton ac argymhellion o'r Cynllun Datblygu ar gyfer Rheoli Risgiau)
- Datblygu adroddiadau i gynnal Cofrestr Risgiau Strategol a Chofrestr Risgiau Corfforaethol gyfoes a'r elfennau risg sy'n eistedd ar y ddwy Gofrestr.

Gofynnodd y Pwyllgor sut yr oedd y Parodrwydd i Dderbyn Risg yn cael ei adlewyrchu yn y broses benderfynu hon, ac os oedd hynny'n digwydd, sut y gellid ei gyfathrebu i'r Sefydliad a thu hwnt.

Dywedodd SS wrth y Pwyllgor y dylai'r holl Risgiau gael eu cofnodi ar y system DATIX. Roedd cynlluniau i newid i'r system DATIX newydd yn y cwmwl a byddent yn cael eu rhoi ar waith ym mis Ebrill 2024.

Awgrymodd y Pwyllgor y dylid datblygu cwrs hyfforddi mewnol a oedd yn dangos sut i gysylltu/cymhwyso Parodrwydd i dderbyn risg i benderfyniadau. Nododd y Pwyllgor bod materion hysbys yn ymwneud â chapasiti a gallu mewn sawl Sefydliad a theimlwyd y byddai darparu hyfforddiant i'r staff, fel yr awgrymwyd, yn ffordd bwysig o ddatblygu'r Sefydliad pe na bai'n bosibl recriwtio staff newydd.

Nododd y Pwyllgor fod y olrhain Parodrwydd i Dderbyn Risg wedi cael ei gymeradwyo cyn i'r Cynllun Tymor Canolig Integredig gael ei gymreadwyo ar gyfer 2023-24. Gofynnwyd a fyddai modd i'r blaenoriaethau strategol gael eu hystyried gan y tîm cynllunio ar gyfer trafodaethau gyda'r Swyddogion Gweithredol wrth i'r gwaith cynllunio ar gyfer 2023-24 ddatblygu.

Camau gweithredu: HG

Nododd y Pwyllgor pa mor bwysig yw'r angen i ddeall y cyd-destun sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau pan allai ymdrechion i osgoi risgiau amharu ar yr agenda ataliol rhag cael ei dilyn, a bod angen y risg gymharol sydd wedi ei hystyried yn y tymor hwy.

Nododd y Pwyllgor fod goruchwyliaeth y Pwyllgor Gwaith ar gyfer cyflawni'r Cynllun Datblygu ar gyfer Rheoli Risgiau, sy'n cynnwys yr argymhellion allanol, wedi'i ddirprwyo i'r Tîm Arwain a chafodd **sicrwydd** ynghylch datblygu'r Cynllun Datblygu ar gyfer Rheoli Risgiau, a **nododd** y cynllun diwygiedig.

Hysbyswyd y Pwyllgor, oherwydd amseriadau'r cyfarfod, fod gwaith wrthi'n cael ei wneud i ddiweddarau'r Gofrestr o Risgiau Strategol ac y disgwylir adroddiad i'r Tîm Busnes Gweithredol ar 20 Medi. Cytunodd LB i anfon yr adroddiad at y Pwyllgor ar ôl ei gymeradwyo.

Camau gweithredu: LB

**ACGC 5.2/
2023. 09.19**

Protocol Risgiau

Ystyriodd y Pwyllgor y papur Protocol Risgiau a oedd yn cynnwys amserlen ddiwygiedig ar gyfer diweddarau ac adrodd ar y Gofrestr o Risgiau Strategol ar Lefel Weithredol.

Ystyriodd y Pwyllgor y diwygiadau i'r amserlen ar gyfer diweddarau ac adrodd ar y Gofrestr ddiwygiedig o Risgiau Strategol, a **chymeradwyodd** y Protocol Risgiau diwygiedig.

**ACGC 5.3/
2023. 09.19**

Seiberddiogelwch (Risg Strategol 7)

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariad llafar gan HG ynghylch Risg Strategol 7. Roedd adolygiadau Mewnol, Allanol a Chenedlaethol wedi'u cynnal, a byddai adolygiad a chynllun gweithredu'n cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Roedd ymdrechion i recriwtio ar gyfer y tîm Seiberddiogelwch wedi parhau, roedd adolygiad yr NIC yn mynd rhagddo, a byddai'r adroddiad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y modd y rheolir Risg Strategol 7 o fewn y sefydliad.

ACGC 6/2023. 09.19

Llywodraethu ac Atebolrwydd

ACGC 6.1/ 2023. 09.19	Cofnodion (10 Mai 2023 a 12 Gorffennaf 2023), Cofnod o'r Camau Gweithredu a Materion yn Codi
<p>Ystyriodd y Pwyllgor y Cofnodion a'r Log o Gamau Gweithredu a wnaed yn y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 a 12 Gorffennaf 2023.</p> <p>Fe wnaeth y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mai 2023 fel cofnod cywir o'r cyfarfod, yn amodol ar gywiro'r geiriad ar dudalen 6 i ddarllen: '...a gadarnhaodd fod yr Archwiliad Mewnol yn cydymffurfio â'r holl safonau gofynnol.' • Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir; • Cymeradwyo cau chwe cham gweithredu a gwblhawyd, ac ymestyn y dyddiad targed ar gyfer Cam Gweithredu ACGC 2023/3 ar y Cofnod o Gamau Gweithredu. 	
ACGC 6.2/ 2023. 09.19	Adroddiad Perfformiad Chwarterol ar Lywodraethu Gwybodaeth Q4 (2022-23)
<p>Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Chwarter 4 ar Lywodraethu Gwybodaeth, a byddai Adroddiad Chwarter 1 yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod mis Ionawr.</p> <p>Crynhodd SS yr adroddiad, a nododd y bu cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, yr ymdriniwyd â hwy oll o fewn yr amserlen statudol. Roedd niferoedd y ceisiadau am Fynediad at Ddata gan y Testun wedi aros yn sefydlog, ac roedd dau ymateb yn syrthio y tu allan i'r terfyn amser oherwydd cymhlethdod ac absenoldeb staff. Lle y bo'n bosibl, hysbyswyd y ceisydd am yr oedi a'r rhesymau dros yr oedi wrth ymateb i'w gais.</p> <p>Mae lefelau'r sawl a wnaeth yr hyfforddiant Rheoli Gwybodaeth yn 90%, sy'n uwch na tharged GIG Cymru o 85%.</p> <p>Dywedodd SS wrth y Pwyllgor ei fod wedi bod yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Data a Gwybodaeth i ddatblygu fformat newydd ar gyfer yr Adroddiad Perfformiad, ac i ddatblygu Dangosfwrdd i ddangos data byw.</p> <p>Trafododd y Pwyllgor y mater o ddefnyddio Cynllun Cyhoeddi i reoli'r gwaith sy'n ymwneud â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Cheisiadau Mynediad Testun.</p> <p>Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Perfformiad ar Lywodraethu Gwybodaeth</p>	
ACGC 6.3/ 2023. 09.19	Diweddariad ar Achosion o Dorri Diogelwch Data
<p>Ystyriodd y Pwyllgor bapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y camau gweithredu a oedd yn deillio o'r achosion o dorri diogelwch data a ddigwyddodd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Medi 2023. Nododd</p>	



SS wall ar dudalen 3 o'r adroddiad, a nododd fod yr amserlen yn y ddogfen wedi'i nodi'n anghywir fel mis Ebrill 2020 hyd at fis Medi 2022. Yn y cyfnod hwnnw, cafwyd 14 o achosion o dorri diogelwch data i'w hadrodd, ac nid oedd angen i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth weithredu ar yr un ohonynt.

Rhodddwyd gwybod i'r Tîm Busnes Gweithredol am yr achosion o dorri diogelwch data, ac fe'u crynhowyd yn yr atodiadau. Nodwyd themâu cyffredin fel rhesymau dros yr achosion hyn ac fe'u crynhowyd yn y papur.

Mae'r atodiadau'n dangos y cynnydd a wnaed ar y cynlluniau gweithredu ar gyfer y ddau achos o dorri diogelwch data, sef CDSC a Hepatitis B, a chafwyd diweddariadau rheolaidd gan y tîm Rheoli Gwybodaeth ynghylch y cynnydd a wnaed wrth weithredu'r camau a gymerwyd i roi effaith i'r argymhellion yn yr adroddiadau.

Nododd y Pwyllgor ymateb cyflym y Sefydliad yn dilyn pob achos o dorri data i ymchwilio a chymryd camau adferol sydd wedi golygu nad oedd angen i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth gymryd unrhyw gamau, gan eu bod yn fodlon ar gamau prydlon y Sefydliad.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y polisi a oedd newydd ei gyflwyno yn GIG Lloegr ar waith yng Nghymru, lle'r oedd yr holl negeseuon e-bost yn cael eu dal am gyfnod byr penodol cyn iddynt gael eu rhyddhau a'u hanfon. Cafodd hyn ei gyflwyno gan y canfuwyd bod y rhan fwyaf o bobl wedi sylwi'n gyflym eu bod wedi gwneud camgymeriad naill ai o ran awtolenwi neu o ran atodi'r ffeil anghywir i e-bost ac roedd y polisi newydd hwn yn caniatáu i'r e-bost gael ei alw'n ôl ac yn osgoi torri diogelwch data.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd digon o staff ar gael o fewn y Sefydliad i ymchwilio'n briodol i achosion o dorri diogelwch data. Dywedodd SS wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r ymchwiliadau hyn o natur arbenigol a'i bod yn hollbwysig bod ymchwiliadau'n cael eu cynnal gan bobl â gwybodaeth a hyfforddiant digonol. Roedd y tîm bob amser yn gyflym i gyfweld y person cyfrifol a rhoi sicrwydd iddynt fod y tîm yn cymryd rhan i ymchwilio a dysgu sut i atal digwyddiadau pellach, ac ni fyddai neb yn pwyntio bys a chyhuddo.

Os penderfynwyd bod digwyddiad yn un difrifol, penodwyd tîm rheoli ar gyfer y digwyddiad, wedi'i gadeirio gan SS ac yn cynnwys aelod o'r tîm Rheoli Gwybodaeth a chynrychiolwyr o'r rhan o'r Sefydliad a fu'n ymwneud â'r achos o dorri diogelwch data. Sicrhawyd bod ymchwiliad trwyadl yn cael ei gynnal.

Mewn perthynas â Rheoli Contractau, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad yn yr adroddiad ynghylch y cyfrifoldebau o ran caffael wrth sicrhau bod y prosesau priodol yn eu lle ac y cedwir atynt.

Camau gweithredu: SS/AW

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr achosion difrifol o dorri diogelwch data yn ystod y 12 mis diwethaf lle'r adroddwyd amdanynt yn y cyfryngau yn y DU, ac roedd pob un ohonynt wedi'u priodoli i fynediad drwy feddalwedd ac apiau trydydd parti ac roedd hwn yn faes y teimlai'r Pwyllgor y dylai'r Sefydliad graffu arno'n barhaus.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod gwersi thematig yn deillio o dorri diogelwch data wedi'u nodi a bod y gwersi yn cael eu rhoi ar waith.

**ACGC 6.4/
2023. 09.19**

**Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a'r
Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog**

Cyflwynodd PV yr Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Adolygwyd y dogfennau hyn yn flynyddol yn unol â gorchmynion enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ni chynhyrchwyd y dogfennau hynny y llynedd ac ysgrifennwyd y Rheolau Sefydlog hyn i gymryd lle'r Gorchmynion a oedd wedi bod ar waith ers mis Mai 2021.

Roedd y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn adlewyrchu Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) Cymru, i ymgorffori'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd, Corff newydd Llais y Dinesydd, sef 'Llais' ac i adlewyrchu penodiad Is-Gadeirydd statudol fel rhan o gyfansoddiad Bwrdd y Sefydliad a newidiadau yn niferoedd y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Roedd mân newidiadau i ddolenni allanol yn y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Gwnaed newid a effeithiodd ar holl Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn Atodlen 1, ac roedd yn egluro'r trothwyon a'r broses gymeradwyo lle'r oedd gwerth eiddo yn fwy na £½ miliwn.

Gofynnodd y Pwyllgor sut y dylai'r Sefydliad ymateb i farn Llais. Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd wrthi'n gweithio gyda Llais i ddatblygu prosesau adrodd ac ymgynghori fel y gellid gweithio mewn partneriaeth â hwy yn y meysydd lle mae ganddynt hwy awdurdodaeth. Roedd y Sefydliad wedi ymgysylltu â Llais ac wedi gofyn iddynt fynychu cyfarfodydd y Bwrdd i helpu wrth weithio mewn partneriaeth.

Ystyriodd y Pwyllgor y diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Materion a Gadwyd yn ôl a'r Pwerau a Ddirprwywyd, ac **argymhellodd** y newidiadau arfaethedig i'r Bwrdd eu mabwysiadu.

Mae'r Pwyllgor yn **argymell** mabwysiadu'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol i'r Bwrdd

**ACGC 6.5/
2023. 09.19**

Diweddariadau Llywodraethu Chwe-misol

Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariadau llywodraethu chwe-misol, a oedd yn crynhoi nifer o feysydd o ran sicrwydd llywodraethu i'r Pwyllgor, sef;

- Datgan Buddiannau
- Cylchlythyrau Iechyd Cymru
- Polisi

Fe gafodd y Pwyllgor:

- **sicrwydd** ynghylch gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad, a **nodi** y byddai'r Gofrestr o Ddatganiadau Buddiant wedi'i diweddarau yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod.
- **sicrwydd** ynghylch rheolaeth y broses ar gyfer sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â Chylchlythyrau Iechyd Cymru.
- **sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisiâu corfforaethol, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

ACGC 7/2023. 09.19	Er Gwybodaeth
ACGC 7.1/2023. 09.19	Cyllid, Caffael ac Atal Twyll
Nododd y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd ar Atal Twyll (Cyhoeddus, Preifat ac atodiad) a'r Proffil Risgiau Byw.	
ACGC 7.2/2023. 09.19	Archwiliad Mewnol, Allanol a Chlinigol
Dim	
ACGC 7.3/2023. 09.19	Rheoli Risgiau
Nododd y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol gyflawn.	
ACGC 7.4/2023. 09.19	Llywodraethu ac Atebolrwydd
Dim	
ACGC 7.5/2023. 09.19	Cynllun Gwaith y Pwyllgor
Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.	
ACGC 8/2023. 09.19	Materion Gweinyddol i Gloi
Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor: 16 Ionawr 2024	
Nododd y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, ac eithrio:	
<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Caffael 	



- Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig
- Adroddiadau yn ymwneud â Seiberddiogelwch.

Unrhyw Fater Arall

Dywedodd HG wrth y Pwyllgor fod peirianwyr strwythurol wedi'u comisiynu i gwblhau archwiliadau yn dilyn cyngor RAAC (concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth) gan Lywodraeth Cymru. Ni adroddwyd am unrhyw faterion mewn unrhyw safle a reolir gan y Sefydliad. Cyflwynir adroddiad ffurfiol i'r Bwrdd unwaith y ceir adroddiad ysgrifenedig gan y peirianwyr.

Hysbysodd HG y Pwyllgor yn dilyn cais a gafwyd ym mis Gorffennaf i ddod o hyd i feysydd lle gellid gwneud arbedion, fod ateb wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru, ond nid oedd ymateb wedi dod i law eto.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod at LB.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:23

HEB EU CADARNHAU